# EISTEDDFOD GERDDOROL RYNGWLADOL LLANGOLLEN

Yn 1947, cynhaliodd tref fechan Llangollen yn Sir Ddinbych Eisteddfod ryngwladol.

Ac eithrio yn ystod cyfnod COVID, mae wedi gwneud yr un peth bob haf ers hynny.

Roedd hi, ac eto nid oedd hi, yn bennaf yn ŵyl gerddorol.

Y syniad gwreiddiol oedd y byddai digwyddiad cystadleuol wedi'i fodelu ar Eisteddfod Gymreig yn hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol heddychlon drwy feithrin perthnasoedd gwell rhwng pobl gyffredin, a ddaeth ynghyd oherwydd eu dyheadau cerddorol.

Gorchfygodd y model unigryw hwn y byd.

## *Roedd y mater yn rhy bwysig, meddai'r trefnwyr, i'w adael yn nwylo gwleidyddion.*

**"Ni all neb lai na synnu fod digwyddiad o'r fath wedi cael ei gynnal yn unrhyw le yn 1947, lai na dwy flynedd ar ôl i'r ymladd ddod i ben. Bod hyn wedi digwydd mewn tref fechan yng Nghymru, drwy ymdrechion gwirfoddolwyr, dan nawdd y cyngor lleol, ar lwyfan dros dro, mewn pabell wedi'i llogi, ar gae hamdden yr ysgol, yw rhywbeth sy'n ddim llai na gwyrthiol."** *Chris Adams 2023*

Mae dros 400,000 o gystadleuwyr wedi ymweld â Dyffryn Dyfrdwy i ganu, dawnsio a pherfformio eu cerddoriaeth: mae hynny'n cynrychioli o leiaf 200 o ddiwylliannau gwahanol.

Yn y blynyddoedd cynnar, roedd nifer y mynychwyr yn cyrraedd 30,000 y dydd.

Mae cyngherddau proffesiynol wedi cynnwys rhai o berfformwyr mwyaf y byd – o Luciano Pavarotti i Joan Baez, gan gynnwys Alicia Markova, Red Army Choir, a Buena Vista Social Club.

## *Yn 2004, enwebwyd yr Eisteddfod ar gyfer Gwobr Heddwch Nobel.*

**"Sefydlwyd yr Eisteddfod Ryngwladol ar sail y gred fod Heddwch yn gofyn am gymaint o ddewrder â Rhyfel – nid y dewrder sy'n deillio o awydd taer i hunan-gadwraeth nac ychwaith dewrder yr anturiaethwr sy'n ceisio elw, ond dewrder tawel a myfyriol sy'n tarddu o ffydd yn ein cyd-ddynion, ac o'r argyhoeddiad nad yw gwahaniaethau mewn iaith, gwleidyddiaeth, hil a chred yn rhwystrau anorchfygol i dderbyn ein gilydd nac i ewyllys da."** *Harold Tudor 1955*